EICH LLE CHI YN NHREFN Y DEYRNAS

Nodyn i'r siaradwr:
Dylai pob un o Dystion Jehofah fedru esbonio'r Deyrnas yn eglur. Heddiw ein lle ni yn nhrefn y Deyrnas yw cefnogi'r gwaith pregethu byd-eang yn weithredol

TYSTION JEHOFAH A'R DEYRNAS—DYSGEIDIAETH WAHANOL (4 mun.)

Dysgeidiaeth o'r Beibl yw'r Deyrnas a gyhoeddir yn unigryw gan Dystion Jehofah (*w*79 7/1 18; *w*80 1/15 9)

Pe baech chi'n cymharu'ch credoau chi â rhai'r eglwysi, y tebyg yw mai'r Deyrnas fyddai'r pennaf wahaniaeth (*g*88 12/22 18, 24)

Dywedodd Iesu mai'r Deyrnas fyddai elfen allweddol ein pregethu yn y dyddiau diwethaf (Mth 24:14)

'Fedrech chi ddangos yn effeithlon i berson yn union beth mae'r Beibl yn ei ddweud am y Deyrnas? (*rs* 225-33)

Fe allem ni oll ddweud y credoau sylfaenol: llywodraeth yn y nefoedd yw'r Deyrnas gyda Iesu'n Frenin arni oddi ar 1914; cymerir 144,000 o'r ddaear i fod yn gyd frenin-offeiriaid i deyrnasu dros baradwys adferedig ar y ddaear

Ond a fedrech chi gadarnhau bob un o'r pwyntiau hyn o'r Beibl?

Wrth inni drafod pob pwynt, ystyriwch a fedrech ei brofi o'r Beibl

PWY SY'N GYMWYS I FOD YN FRENIN Y DEYRNAS, A PHRYD? (20 mun.)

'Fedrech chi ddangos o'r Beibl mai dim ond rhywun yn y nefoedd, ac nid neb ar y ddaear, allai fod yn gymwys i fod yn Frenin y Deyrnas? (*go* 91-2)

Byddai'n rhaid i frenin y Deyrnas theocrataidd fod o linach Dafydd (Salm 89:35, 36)

'Does dim un dyn byw yn y genhedlaeth hon a fedr brofi ei hawl gyfreithiol i orsedd Dafydd (*it*-1 909 ¶4)

'Roedd Iesu yn y llinach honno, ond nid yw'n fyw ar y ddaear, felly sut gall e fod yn Frenin y Deyrnas?

Mae proffwydoliaeth Daniel pennod 7 yn cadarnhau y rhoddir brenhiniaeth y Deyrnas i rywun yn y nefoedd

Mae proffwydoliaeth Daniel yn dangos y deuai brenhiniaeth y Deyrnas i lawr ymhell yn ffrwd hanes (Dan 7:1-8; *go* 93-8; *gm* 127-8; *w*86 10/1 7)

Cynrychioli breniniaethau dynol wnâi'r pedwar bwystfil sy'n codi o'r môr (Darllen Daniel 7:15-17)

Megis llew cyflym, nerthol, 'roedd Ymerodraeth Babilon wedi ysu cenhedloedd a phobloedd ac yna gael ei threchu

Fel arth, 'roedd Grym Byd Medo-Persia yn awchu am goncwest gan wthio i dri chyfeiriad cyn i wlad Groeg ei goresgyn

Cychwynnodd y Grym Byd Groegaidd gydag Alecsander Fawr, ac ymledodd yn gyflym, fel llewpart llamol

Wedi marw Alecsander, meddiannodd pedwar cadfridog rannau o'i diriogaeth

I gychwyn 'roedd y pedwerydd bwystfil yn cynrychioli'r Ymerodraeth Rufeinig ond hefyd fe ddarluniai ddyrchafu'r Grym Byd Eingl-Americanaidd (Darllen Daniel 7:23-25) (*w*88 5/15 24-6)

Meddiannodd yr Ymerodraeth Rufeinig yr Ymerodraeth Roegaidd fel bwystfil arswydus yn malu a bwyta pob peth

Sefyll mae'r "deg corn" dros gyfanswm y cenhedloedd a llywodraethau gwahanol ddaeth i fod wrth i'r Ymerodraeth Rufeinig raddol ddadfeilio

Un cynnyrch amlwg y dadfeilio hwn oedd Prydain Fawr

Yn debyg i'r 'corn bychan,' erbyn 1763 'roedd Prydain wedi gorchfygu llyngesau Sbaen, Yr Iseldiroedd, a Ffrainc

Mae 'corn bychan' Daniel 7:8 wedi dod i gynrychioli'r Grym Byd Eingl-Americanaidd

'Rydym yn rhoi sylw i'r hanes hwn yn fyr i roi cefndir ar gyfer gwybodaeth bwysig am Frenin Y Deyrnas

Mae Daniel yn rhoi inni weledigaeth am weithgarwch llys barn yn y nefoedd yn ymwneud â brenhiniaeth Teyrnas Dduw (Darllen Daniel 7:9-14) (*go* 98-107)

Jehofah Dduw yw'r Hen Ddihenydd; mae'r weledigaeth yn gwneud argraff arnom oherwydd Ei safle aruchel

'Rydym yn byw mewn cyfnod pan yw'r 'corn bychan' yn gweithredu'n ddylanwadol

Caniatawyd i gyn "fwystfilod" fodoli ar ffurf gweddillion eu tiriogaethau

Cyflwynir "mab y dyn"; pwy ydyw, a beth a ddisgrifir sy'n digwydd iddo?

Gallech ateb, 'Iesu yw "Mab y dyn,"' ond a fedrech chi gadarnhau hynny o'r Beibl?

Mae'r cofnod ysbrydoledig yn Mathew 26:63-65 (darllen) yn egluro mai Iesu yw Mab y dyn (*w*88 1/1 10)

Mae disgrifiad Daniel yn harmoneiddio â Datguddiad 1:7 lle gwelir Iesu yn dod ar y cymylau

Pryd ddaw e a derbyn brenhiniaeth a theyrnas? Sut mae gweledigaeth Daniel yn ein helpu ni i wybod?

Mae'n rhaid fod y digwyddiad hwn ar ôl i'r Grym Byd Eingl-Americanaidd ('corn bychan') ymddyrchafu yn y cyfnod modern

Mae cyflawniad proffwydoliaethau Beiblaidd eraill yn dangos i Jehofah roi brenhiniaeth i'w Fab tua amser cychwyn Rhyfel Byd I i lywodraethu yn y Deyrnas Feseianaidd nefol

Nodwedd anogol proffwydoliaeth Daniel yw ei bod yn dangos y bydd y Deyrnas Feseianaidd yn dinistrio teyrnasoedd dynol (Dan 7:14, 26)

Ond beth am fynd â rhai bodau dynol i'r nefoedd i deyrnasu? 'Fedrech chi gadarnhau hynny o'r Beibl?

SUT GALL BODAU DYNOL FOD Â RHAN YM MRENHINIAETH Y DEYRNAS? (9 mun.)

Mae gweledigaeth Daniel yn dangos nid yn unig y bydd Iesu (Mab y dyn) yn derbyn brenhiniaeth y Deyrnas ond hefyd y bydd eraill yn cael rhan yn hyn (Darllen Daniel 7:18, 27) (*kc* 143)

Mae'r Beibl yn dangos i rai o ganlynwyr Iesu gael eu galw i gael rhan yn mrenhiniaeth y Deyrnas (Darllen Datguddiad 1:9)

Cafodd yr Apostol Ioan ei ysbrydoli i ddarparu llawer o wybodaeth ynglŷn â rhan bodau dynol ym mrenhiniaeth y Deyrnas (*go* 108-14)

Fe ysgrifennodd y byddai 144,000 o fodau dynol yn cael eu cymryd i'r nefoedd i gael rhan ym mrenhiniaeth Iesu (Darllen Datguddiad 14:1; byrdwn adnodau 3-5)

Beth petai rhywun yn dweud na ddylem ni dderbyn 144,000 yn rhif llythrennol? (*go* 111; *rs* 167)

Yr Oen y cyfeirir ato oedd Iesu, "Oen Duw"; yn Datguddiad 14 dim ond un Oen, rhif llythrennol, a grybwyllir, felly mae'n rhesymol mai rhif llythrennol yw 144,000 hefyd (In 1:29; *g*62 9/8 27-8)

Nhw yw "blaenffrwyth" y ddynoliaeth; dewis bychan cynrychioladol yw'r blaenffrwyth

Gallai Iesu eu galw'n "braidd bychan," gan mai ychydig o ran nifer fyddai'r 144,000 o fodau dynol a gymerid i deyrnasu gyda Iesu o'u cymharu â phoblogaeth y byd (Lc 12:32)

Mae Datguddiad 7:4-8 hefyd yn crybwyll y rhai hyn sydd â rhan ganddynt ym mrenhiniaeth y Deyrnas (*go* 112-14)

Er y dywedir eu bod nhw o 'lwythau Israel,' nid Iddewon o ran y cnawd yw pob un (*re* 116-19)

Mae enwau'r 'llwythau' yn wahanol i 12 llwyth gwreiddiol Israel naturiol, sy'n dangos nad yw Datguddiad 7 yn cyfeirio at Israeliaid yn ôl y cnawd (*w*60 8/1 479)

Mae Datguddiad 5:9, 10 (darllen) yn dangos eu bod nhw yn wir o lawer cenedl

Rhesymegol bod Datguddiad yn cyfeirio at y rhai sy'n Israeliaid cuddiedig (Dyfynnu Rhufeiniaid 2:29)

Sut mae bodau dynol yn cael rhan ym mrenhiniaeth y Deyrnas?

Mae Duw yn galw bodau dynol i'r nefoedd i gael rhan ym mrenhiniaeth y Deyrnas gyda Iesu (*go* 115-20)

Rhaid eu bedyddio nhw mewn dŵr a'u heneinio â'r ysbryd sanctaidd (Darllen Ioan 3:3, 5) (*go* 113-14)

Felly y cânt 'eu geni o'r newydd,' eu geni nid fel bodau dynol ond yn feibion ysbrydol Duw (*g*88 2/8 26-7)

Wedi eu galw i fod yn gyd-etifeddion â Christ, rhaid i'r rhain fod yn ffyddlon hyd angau (Dat 2:10)

Yna, mae Duw, trwy Grist, yn eu hatgyfodi nhw i fywyd yn y nefoedd i deyrnasu gyda Christ (Dat 20:4-6)

Nid yw'r mwyafrif ohonom yn cael ein galw i deyrnasu gyda Christ, felly beth yw'n lle ni yn nhrefn y Deyrnas?

Mae rheswm da gennym i edrych ymlaen at amser pan fydd y ddaear gyfan yn cael budd o frenhiniaeth nefol (Dan 7:27)

BETH YDYCH CHI'N EI WNEUD 'NAWR I ADDASU? (12 mun.)

Mae'r Beibl yn dangos yn eglur ddigon y bydd mwyafrif mawr bodau dynol ffyddlon yn mwynhau bywyd tragwyddol ar y ddaear

Mae'r ffaith mai dim ond praidd bychan sy'n mynd i'r nefoedd yn awgrymu y gwobrwyir y lleill yn rhywle arall

Bwriad Duw ar gyfer dyn yw iddo fyw ar y ddaear (Gen 1:28)

Dim ond o fod yn anufudd y deuai angau dynol (Gen 2:17)

Mae Salm 37:11, 29 yn dangos y teyrnasir dros y ddaear mewn cyfiawnder

Mae hyn yn cytuno â Datguddiad 5:9, 10

'Rydym yn agosáu at amser argyfyngus o safbwynt ein lle ni yn nhrefn y Deyrnas (Darllen Mathew 25:31, 32) (*w*95 10/15 23-8)

Bydd y didoli a'r barnu ar sail cefnogaeth i "frodyr" eneiniog Crist neu ddiffyg hynny (Darllen Mathew 25:34-40)

Nid disgrifio'r byd newydd 'roedd Crist, gan na fydd yr eneiniog yn noeth, nac yn newynog, nac yng ngharchar y pryd hwnnw

Y cefnogwyr yw'r rhai sy'n cydnabod brodyr eneiniog Crist ac yn cydweithredu gyda nhw yn eu gwaith pregethu hanfodol yn yr amser y diwedd sydd ohoni

Gall pawb ohonom ofyn: ''Ydw i'n teimlo fy mod yn amlygu o'r galon fy nghefnogaeth i waith y Deyrnas? 'Ydw i'n gweithio'n galed i wneud popeth a fedraf i gyhoeddi'r Deyrnas?'

Gwobr cefnogwyr fydd etifeddu rhan ddaearol y Deyrnas (*go* 166; *w*85 2/1 22-3)

Dewis peidio â chael lle yn nhrefn y Deyrnas wna'r rhai na roddodd eu cefnogaeth; derbyniant farn cosb (Darllen Mathew 25:41-46) (*go* 167-71)

Gwrthodant gydnabod "brodyr" Crist, sydd yn pregethu'r Deyrnas; 'dydyn' nhw ddim yn cefnogi'r gwaith hanfodol bwysig hwn

Mae hyn yn fater difrifol; 'does 'na ddim tir canol, mae'n rhaid cymryd ochr; pan draddodir y farn derfynol, bydd unigolyn naill ai'n "ddafad" neu yn 'afr'

'Nawr yw'r amser i amlygu'n teyrngarwch absoliwt i'r Deyrnas a'i chefnogi hi'n frwdfrydig

Mae hyn yn golygu peidio â bod yn ddiofal ynglŷn â mynychu cyfarfodydd a bod yn ddiarbed yn cyfrannu'n gyhoeddus yn y gwaith pregethu'r-Deyrnas a drefnir gan y gynulleidfa

Ein lle ni 'nawr yw profi'n ffydd ddidwyll yn Iesu yn Frenin a Phridwerthwr, a thrwy hynny gael sail gobaith y fendith ym Mathew 25:34

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodir ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)